Galwad Agored:

# Tendr Artist / Cwmni ar gyfer Llwybr Treftadaeth Rhyngweithiol yn Theatr Clwyd

---

## Cyflwyniad

Theatr Clwyd yw prif theatr gynhyrchu Cymru ac mae ein gwaith ni'n teithio'r DU. Yn Theatr Clwyd mae llais y gymuned wedi'i ymgorffori yn ein bywyd artistig a sefydliadol ac mae ein gwaith ni wedi cyrraedd 700,000 o bobl dros y ddwy flynedd ddiwethaf drwy 23 o gynyrchiadau sydd wedi cael canmoliaeth gan y beirniaid a'n gwaith celf, iechyd a lles ni sy'n torri tir newydd.

Yn un o ddim ond pedair theatr yn y DU sy'n adeiladu setiau, yn gwneud gwisgoedd ac yn creu props yn fewnol, rydyn ni'n bwerdy cadarn sy'n gwthio ffiniau theatrig i greu sioeau syfrdanol. Yn 2021 cafodd Theatr Clwyd ei chydnabod fel y theatr ranbarthol orau yn y DU fel rhan o Wobrau The Stage.

Ar ôl 49 o flynyddoedd, mae ein hadeilad rhestredig Gradd II ni'n cael ailddatblygiad cyfalaf sylweddol, ac mae disgwyl i'n hadeilad newydd ni agor ym mis Mehefin 2025.

Ar ôl ymgynghori'n helaeth â'r gymuned a gweithio gyda'r penseiri arobryn, Haworth Tompkins, mae ein hailddatblygiad trawsnewidiol ni'n darparu profiad llawer gwell i ymwelwyr a gwell cyfleusterau creu incwm mewn adeilad gwyrddach, mwy effeithlon a chroesawgar. Mae ein theatr 45 oed ni wedi cael ei hailddatblygu i greu adeilad gwyrddach, mwy effeithlon a chynaliadwy ar gyfer yr 21ain ganrif.

Mae ein hadeilad rhestredig Gradd II ni'n enghraifft flaenllaw o gampws celfyddydau dinesig ar ôl y rhyfel yn y DU. Mae CADW yn ei nodi fel enghraifft bwysig o'r "bwriad i ddarparu mynediad cyffredinol i'r celfyddydau fel rhan hanfodol o wladwriaeth egalitaraidd fodern". Mae'r rhestriad Gradd II at ddefnydd a gwerth cymunedol ac mae'n amlygu rhai agweddau treftadaeth penodol yn yr adeilad.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi dyfarnu cyllid i Theatr Clwyd i gefnogi cwblhau ein hailddatblygiad cyfalaf. Fel rhan o'r cyllid yma, bydd Theatr Clwyd yn creu llwybr rhyngweithiol, gan dynnu sylw at dreftadaeth gyfoethog yr adeilad.

# Llwybr Treftadaeth Rhyngweithiol – Comisiwn Cwmni / Artist – Y Briff

Wedi'i gyllido gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Theatr Clwyd, mae'r prosiect yma'n canolbwyntio ar wneud adnodd cymunedol mawr hygyrch, rhestredig Gradd II sy'n bwysig yn bensaernïol ac yn gymdeithasol. Bydd y prosiect yn cyflwyno darn newydd sbon, parhaol o waith ymgysylltu cyhoeddus cynhwysol sy'n cysylltu â threftadaeth ddiwylliannol mewn ffordd newydd a chyffrous.

Rydyn ni wedi cyflogi Ymchwilydd Arweiniol, Jude Rogers, a Chynorthwy-ydd Ymchwil i ymchwilio a chasglu straeon gan y cyhoedd, yn ymwneud â thair nodwedd treftadaeth fewnol yr adeilad. Bydd yr ymarferyddion ymchwil hefyd yn casglu gwybodaeth o'r Archifau Rhanbarthol yn ymwneud â threftadaeth yr adeilad fel endid cyflawn. Y nodweddion treftadaeth mewnol a fydd yn rhan o'r llwybr yw:

- Y stiwdios darlledu teledu gwreiddiol ar gyfer ITV Wales and West, oedd yn cael ei adnabod gynt fel Harlech Television (HTV) - mae cyn-weithwyr yn dal i ymgysylltu â'r theatr;
- Ffrâm paent weithredol wreiddiol; un o ddim ond llond llaw sydd ar ôl yn y DU (ac un o'r rhai mwyaf) sy'n parhau i fod mewn comisiwn gweithredol;
- Teils acwstig prin wedi'u gwneud â llaw yn y prif awditoriwm;

Bydd yr ymchwil a'r sgript / stori o ganlyniad yn cael eu cyflwyno i artist neu sefydliad a fydd yn defnyddio'r straeon, y cymeriadau a'r dystiolaeth hanesyddol i greu adnodd rhyngweithiol i'w ddefnyddio ar y llwybr. Gall hwn fod yn ddigidol neu'n analog a gall, er enghraifft, gynnwys segmentau sain, wedi'u gwreiddio'n gadarn yn adeilad Theatr Clwyd ac yn defnyddio'r agweddau treftadaeth fel pwyntiau cyffwrdd corfforol sy'n cysylltu'r naratif. Mae gennym ni ddiddordeb mewn clywed sut gallai'r artist neu'r sefydliad sy'n cael ei ddewis ddisgwyl i ymwelwyr gael mynediad i'r llwybr hunan-dywys (gall hyn fod fel canllaw sain a defnyddio rhyw fath o fap digidol, er enghraifft) a sut gellir eu cludo i orffennol Theatr Clwyd wrth iddyn nhw deithio drwy'r adeilad.

Bydd yr artist neu'r sefydliad, sydd â phrofiad o gyflwyno gosodiadau rhyngweithiol difyr, yn cael ei gomisiynu i gyflwyno'r syniad creadigol a seilwaith technegol y gosodiad, a fydd yn bodoli am byth yn yr adeilad. Dylent ystyried hygyrchedd y llwybr o'r dechrau un wrth ei greu, gan gynnwys ystyried sut bydd pobl sy'n fyddar, yn anabl ac yn niwrowahanol yn cael mynediad i'r gwaith. Gobeithio bydd y prosiect yma'n rhoi cyfle i bob defnyddiwr archwilio treftadaeth ein hadeilad mewn ffordd chwareus a hwyliog.




*Delwedd o flaen yr adeilad wedi'i ailddatblygu*

Mae'r strategaeth gelf gyhoeddus yn rhagweld Theatr Clwyd fel llwyfan ar gyfer syniadau presennol a newydd, gan ystyried celf gyhoeddus yn yr ystyr ehangaf; gofod ar gyfer gweithiau celf safle-benodol nodedig, sy'n adlewyrchu cymeriad, treftadaeth, cymuned a phensaernïaeth y theatr. Mae'r rhaglen arfaethedig yn cynnwys cyfnodau preswyl, digwyddiadau, a gweithiau celf parhaol, yn ogystal â chyfryngau digidol, cerflunwaith, pensaernïaeth a dylunio gofod cyhoeddus.

*Byddwn yn creu ac yn comisiynu celf gyhoeddus sy'n ysbrydoledig ac yn gynhwysol. Mae'r strategaeth celf gyhoeddus ar gyfer yr adeilad newydd yn ceisio gwella enw da Theatr Clwyd fel esiampl o ragoriaeth artistig a chartref i'w chymuned.*

## Themâu

Rydyn ni wedi nodi tair thema allweddol ar gyfer celf gyhoeddus yn yr adeilad newydd:

### Cynaliadwyedd

Mae'r ailddatblygiad yn cael ei sbarduno gan ddyhead i greu adeilad sy'n lleihau'r defnydd o ynni ac yn lleihau effaith y deunyddiau sy'n cael eu defnyddio. Mae ystyriaeth bellach hefyd yn cael ei rhoi i les, y gallu i addasu a gwydnwch.

### Cymuned

Yn Theatr Clwyd mae llais y gymuned yn cael ei ymgorffori ym mywyd artistig a threfniadaethol yr adeilad. Mae Theatr Clwyd wedi dysgu bod rhaid i chi feithrin ymddiriedaeth gyda chymuned leol benodol, ac wedyn tyfu ar y cyd, er mwyn cyflawni gwaith ystyrlon. Dylai'r artist edrych ar ffyrdd o gynnwys y gymuned yn ei broses.

## Elfen Chwareus / Llawenydd


Mae dyhead i'r adeilad fod yn llawen ac yn hwyliog i ryngweithio gydag oedolion a phlant. Mae Theatr Clwyd yn credu y bydd galluogi pobl i ymgysylltu â’r adeilad drwy chwarae yn annog rhyngweithio cymdeithasol a dysgu cymdeithasol.

Gobeithio bydd y comisiwn yma’n annog ein hymwelwyr ni i gymryd rhan, teimlo, meddwl, anturio, defnyddio eu dychymyg ac adeiladu eu profiad eu hunain o ymweld â’r adeilad newydd.





*Ffotograffau o’r ffrâm paent*



*Ffotograff o deils acwstig yn y prif awditoriwm*

# Y Broses Ddewis

Mae hon yn broses ddewis dau gam.

Hoffem yn arbennig annog ceisiadau gan unigolion neu dimau ag aelodau sy’n ddwyieithog neu sy’n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Rydyn ni’n croesawu cynigion sy’n cynnwys agwedd greadigol at iaith ac adrodd straeon, gan ddefnyddio’r Gymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd lleiafrifol eraill yng Nghymru. Bydd angen cyflwyno'r prosiect terfynol yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad ydych chi neu eich cwmni yn gweithio yn y Gymraeg, fe all Theatr Clwyd gefnogi gyda chyflwyno'r gwaith yn ddwyieithog.

Sylwch, rydyn ni hefyd yn agored i gydweithredu rhwng artistiaid a sefydliadau a allai gynnig sgiliau gwahanol ac sy'n dymuno cyflwyno cais ar y cyd.

Byddwn yn cynnal sesiwn Holi ac Ateb ar-lein ar **ddydd Gwener 7fed Chwefror 2025, 11.30 - 12:30**, lle byddwch yn gallu gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych chi am y prosiect i'n Prif Weithredwr ni, y Cyfarwyddwr Cyllid, Gweithrediadau a Phobl, a’r Cynhyrchydd. Os hoffech chi fynychu'r sesiwn Holi ac Ateb, anfonwch e-bost at sam.longville@theatrclwyd.com a byddwn yn anfon dolen atoch chi i ymuno.

## Cam Un

Bydd y cam cyntaf yn cynnwys llunio rhestr fer o artistiaid a / neu sefydliadau drwy asesiad mynegi diddordeb, gan edrych ar waith blaenorol ac ymatebion cychwynnol i'r briff.

I wneud cais, anfonwch y canlynol at sam.longville@theatrclwyd.com erbyn **dydd Gwener 21ain Chwefror am 17:00 gyda'r pennawd pwnc COMISIWN LLWYBR THEATR CLWYD NLHF:**

- Datganiad o ddiddordeb yn egluro pam hoffech chi gael eich ystyried ar gyfer y prosiect yma ar ddim mwy na dwy ochr A4. Mae posib cyflwyno'r datganiad o ddiddordeb ar ffurf fideo hefyd (dim mwy na 2 funud).
- Enghreifftiau o waith diweddar wedi’u cyflwyno fel pdf.
- CV diweddar - uchafswm o 2 dudalen - neu wefan.
- Manylion enw a chyfeiriad e-bost 2 ganolwr, gydag o leiaf un ohonynt yn gallu gwneud sylwadau am brofiad uniongyrchol o'ch ymarfer proffesiynol.
- Eich manylion cyswllt eich hun gan gynnwys rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.
- Ni ddylai’r ffeil fod yn fwy na chyfanswm o 6mb.

Wedyn bydd yr ymgeiswyr yn cael eu rhoi ar y rhestr fer yn seiliedig ar eu datganiad mynegi diddordeb gan yr Ymchwilydd Arweiniol, Jude Rogers, a Chyfarwyddwr Ymgyrch Gyfalaf Theatr Clwyd a Chynhyrchydd y prosiect.

## Cam Dau

Bydd yr artistiaid / sefydliadau hyn sydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i baratoi syniad cysyniad i’w gyflwyno i banel dewis sy’n cynnwys ein Prif Weithredwr ni, y Cyfarwyddwr Cyllid, Gweithrediadau a Phobl, yr Ymchwilydd Arweiniol a’r Cynhyrchydd. Bydd pob ymgeisydd sydd ar y rhestr fer yn cael ffi o £400 i i ddatblygu eu cysyniad.

**Bydd angen i artistiaid a sefydliadau sydd â diddordeb fod ar gael ar ddydd Iau 27ain Mawrth 2025 i gyflwyno eu syniadau Cam Dau i'r panel dewis.**

Bydd costau teithio’n cael eu talu am fynychu. Os oes gennych chi unrhyw ofynion penodol i'ch galluogi chi i fynychu'r cyflwyniad, rhowch wybod i ni ar ôl i chi dderbyn hysbysiad eich bod ar y rhestr fer.

Bydd y panel yn asesu’r cyfweleion gan ddefnyddio’r meini prawf canlynol:

- Tystiolaeth o ddealltwriaeth o friff y comisiwn
- Ansawdd a pherthnasedd gwaith artistig blaenorol, gan gynnwys y gallu i ddarparu ymateb creadigol i friff
- Tystiolaeth o sgiliau cyfathrebu da
- Prawf gan yr artist / sefydliad o hawl i weithio yn y DU

## Amserlen

Disgwylir i'r adeilad agor yng ngwanwyn 2025, ac mae amserlen fras i’w gweld isod a fydd yn cael ei chydlynu gyda gwaith y pensaer a'r contractwyr ar y safle.

| | |
|---|---|
| Sesiwn Holi ac Ateb Ar-lein: | Dydd Gwener, 7$^{fed}$ Chwefror 2025, 11:30 – 12:30 - *e-bostiwch sam.longville@theatrclwyd.com os ydych chi eisiau mynychu.* |
| Dyddiad Cau ar gyfer Mynegi Diddordeb | Dydd Gwener 21$^{ain}$ Chwefror, 17:00 |
| Llunio Rhestr Fer | w/d 24$^{ain}$ Chwefror |
| Hysbysu’r Artistiaid / Timau ar y Rhestr Fer | Dydd Mawrth 4$^{ydd}$ Mawrth |
| Yr Artistiaid ar y Rhestr Fer i Ddatblygu Dyluniadau Cysyniad | Dechrau Mis Mawrth |
| Cyfweliadau Panel Cam Dau | Dydd Iau 27$^{ain}$ Mawrth, 13:00-17:00 |
| Penodi Artist | Ebrill (yr union ddyddiad i’w gadarnhau) |
| Cynnal rhediadau prawf | Gorffennaf (yr union ddyddiadau i’w cadarnhau) |
| Cymeradwyo a chwblhau’r prosiect | Dydd Sul 31$^{ain}$ Awst |

## Cyllideb

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y comisiwn yma (gan gynnwys ffi’r artist / sefydliad ac unrhyw ymgysylltu cymunedol, gweithdai, rhaglennu, codio, ffabrigo, cyflwyno a gosod) yw £12,500. Nid yw hyn yn cynnwys costau teithio a llety os oes angen ac mae'n cynnwys TAW.

Anfonwch unrhyw ymholiadau a cheisiadau at sam.longville@theatrclwyd.com gyda'r pennawd pwnc **COMISIWN LLWYBR THEATR CLWYD NLHF.**